# Safonau'r Gwasanaeth Rheoli Plâu (eiddo domestig)

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn sydd ei angen arnom gennych chi ar ôl i'r gwasanaeth gael ei drefnu.

Ar gyfer unrhyw driniaeth, nid oes unrhyw sicrwydd o ddileu yn cael ei awgrymu na'i roi. Mae hyn oherwydd natur y gwaith o ddelio â phlâu yn ogystal â ffactorau allanol.

Mae'n gyfrifoldeb ar ddeiliad y tŷ i sicrhau nad yw unrhyw wenwyn llygod a osodwyd gan y Technegydd Rheoli Plâu yn cael ei symud ac nad yw unrhyw un yn ymyrryd ag ef.

Bydd taflen wybodaeth diogelwch am y cynnyrch a ddefnyddir yn cael ei gadael adeg yr ymweliad.

**Gellir ystyried apwyntiadau a gollwyd fel un apwyntiad wedi'i drefnu. Caniatewch o leiaf 24 awr o rybudd i ganslo, aildrefnu neu wneud newidiadau.**

# Cnofilod

**Llygod Mawr:** Mae'r gost yn cynnwys hyd at 3 ymweliad i ddelio gyda'r broblem bresennol. Y dull cyfredol o ddelio â chnofilod yw gwenwyn llygod gwrthgeulo. Nid ydym yn defnyddio maglau yn rheolaidd (gweler Cwestiynau Cyffredin). Cyfrifoldeb y perchennog neu feddiannydd yw trefnu apwyntiadau dilynol bob 7-14 diwrnod nes y caiff y mater ei ddatrys. Os nad yw deiliad y tŷ yn cysylltu â ni ymhen mis o'r ymweliad diwethaf byddwn yn cau'r alwad. Ar ôl i fis fynd heibio neu os oes angen mwy na 3 ymweliad bydd angen gwneud taliad pellach.

**Llygod:** Mae'r gost yn cynnwys hyd at 3 ymweliad i ddelio gyda'r broblem bresennol. Y dull cyfredol o ddelio â chnofilod yw gwenwyn llygod gwrthgeulo. Nid ydym yn defnyddio maglau yn rheolaidd (gweler Cwestiynau Cyffredin). Cyfrifoldeb y perchennog neu feddiannydd yw trefnu apwyntiadau dilynol bob 7-14 diwrnod nes y caiff y mater ei ddatrys. Os nad yw deiliad y tŷ yn cysylltu â ni ymhen mis o'r ymweliad diwethaf byddwn yn cau'r alwad. Ar ôl i fis fynd heibio neu os oes angen mwy na 3 ymweliad bydd angen gwneud taliad pellach.

**Gwiwerod:** Mae'r gost yn cynnwys arolwg cychwynnol a gosod magl wiwerod. Bydd y Technegydd yn trafod opsiynau ar adeg yr ymweliad. Mae'n cynnwys 2 ymweliad pellach i symud unrhyw wiwerod ac ailosod y fagl. Os oes angen mwy na 3 ymweliad bydd angen gwneud taliad pellach.

## Argymhellion Atal Cnofilod

Rhoddir cyngor ar bwyntiau mynediad posibl i'r eiddo. Nid yw bob amser yn amlwg ac weithiau gallant ddod o ddraeniau o dan y ddaear neu eiddo cyfagos. Nid ydym yn ymgymryd â gwaith atal. Cyfrifoldeb y perchennog/meddiannydd/landlord fyddai trefnu hyn.
Mae sicrhau bod atgyweiriadau'n cael eu cwblhau yn rhan hanfodol o waith rheoli cnofilod effeithiol i atal problemau rhag digwydd eto.
Caiff cyngor ei roi ynglŷn â'r amser gorau yn ystod y driniaeth i gwblhau gwaith.

## Trin pan fydd anifeiliaid anwes/plant yn bresennol

Caiff abwyd ei osod mewn ffordd ddiogel mewn ardaloedd nad ydynt yn hygyrch i anifeiliaid anwes na phlant heb leihau effeithiolrwydd y driniaeth.
Fodd bynnag, cyfrifoldeb deiliaid y tŷ hefyd yw bod yn ymwybodol o leoliad yr abwyd a chadw anifeiliaid anwes a phlant bach i ffwrdd o'r ardal.

## Gofodau Atig

Nid yw'r Technegwyr yn mynd i mewn i fannau atig oni bai bod bordiau wedi'u gosod yno. Bydd triniaeth o hyd yn effeithiol gan fod abwyd yn ffynhonnell o fwyd a bydd y cnofilod yn cael eu denu ato waeth ble mae synau'n cael eu clywed.

## Cnofilod Marw

Gall deiliad y tŷ roi unrhyw gnofilod marw mewn dau fag sbwriel ac yna'u rhoi yn y bin. Os nad oes modd gwneud hynny, gellir trefnu ymweliad i gael gwared â'r cnofilod marw os ydynt yn hygyrch.

## Cael Gwared â'r Abwyd

Mae'r abwyd ac unrhyw flychau/maglau/offer yn parhau i fod yn eiddo i Gyngor Caerdydd a byddant yn cael eu symud ar ddiwedd y cyfnod o driniaeth.

# Pryfed

**Gwenyn Meirch:** Mae'r gost yn cynnwys arolwg cychwynnol a thriniaeth os oes angen. Mae un driniaeth fel arfer yn ddigonol. Fodd bynnag, os nodir gweithgarwch o fewn 7 diwrnod wedi'r driniaeth, yna bydd triniaeth ddilynol yn cael ei chynnal yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, os yw'n ymddangos ei bod yn nyth newydd neu'n nyth gwahanol, yna codir tâl ychwanegol. Ni fydd y nyth yn cael ei symud ond gall deiliad y tŷ ei symud pan na fydd unrhyw weithgarwch pellach yn cael ei nodi neu gall aros yn ei lle gan na fydd yn cael ei hailfeddiannu.

**Gwenyn: Nid ydym yn cynnig triniaeth ar gyfer gwenyn.** Fodd bynnag, os talwyd am ymweliad ar gyfer gwenyn meirch a'i bod yn ymddangos mai gwenyn sydd yno, rhoddir cyngor ar wenyn. Efallai y bydd gan y cwsmer hawl i gael ad-daliad o 50% o'r ffi; mae hyn er mwyn talu cost yr alwad allan a'r cyngor. Bydd cwsmeriaid yn cael gwybod am hyn ar adeg trefnu ymweliad.

**Chwain:** Mae'r gost yn cynnwys 1 driniaeth chwistrellu sydd fel arfer yn ddigonol ar yr amod y glynwyd wrth arweiniad ar roi triniaeth i anifeiliaid anwes a hwfro'r eiddo. Os yw chwain yn dal i fod yn bresennol o fewn 2-3 wythnos ar ôl chwistrellu, byddwn yn cynnal triniaeth ddilynol heb unrhyw gost ychwanegol. Os cysylltir â ni ar ôl mis neu os oes angen mwy na 2 ymweliad, codir tâl am unrhyw ymweliadau pellach.

**Llau Gwely:** Mae'r gost yn cynnwys dwy driniaeth lawn ym mhob ardal gysgu yn yr eiddo. At ddibenion codi tâl, os yw pobl yn cysgu mewn lolfa neu ardal arall, bydd hyn yn cael ei gyfrif fel ystafell wely. Dylid cynnal yr ail ymweliad 3 i 4 wythnos wedi'r un cyntaf a chyfrifoldeb y perchennog neu'r meddianwyr yw cysylltu â'r swyddfa i drefnu ail ymweliad. Rhaid i ddeiliaid tai ddilyn y cyngor a roddir er mwyn i driniaeth fod yn effeithiol.
Mae angen dilyn canllawiau ar baratoi ar gyfer triniaeth. Gall methu â pharatoi'n gywir arwain at wrthod triniaeth. Gellir codi tâl pellach.
Gall methu â pharatoi'n effeithiol hefyd arwain at driniaeth lai effeithiol neu olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i reoli'r pla.

**Codir tâl ar gyfradd is am unrhyw driniaethau y tu hwnt i'r ddwy driniaeth gychwynnol. Efallai y bydd angen sawl ymweliad ychwanegol fel rhan o'r driniaeth gan y gall fod yn anodd iawn rheoli'r pla, yn enwedig os yw wedi hen sefydlu.**

**Chwilod Du:** Mae'r gost yn cynnwys 2 ymweliad monitro a 2 ymweliad triniaeth. Bydd y Technegydd yn rhoi gwybod am y cyfnod a argymhellir rhwng ymweliadau, ond cyfrifoldeb y perchennog neu'r meddianwyr yw cysylltu â'r Swyddfa Rheoli Plâu i drefnu ymweliad dilynol. Codir tâl ar gyfradd is am ymweliadau dilynol. Os na wneir unrhyw gyswllt o fewn mis neu os yw'r Technegydd o'r farn bod y gwaith wedi'i orffen yna ystyrir ei bod yn archeb newydd.

Mae angen dilyn canllawiau ar baratoi ar gyfer triniaeth. Gall methu â pharatoi'n gywir arwain at wrthod triniaeth. Gellir codi tâl pellach.
Gall methu â pharatoi'n effeithiol hefyd arwain at driniaeth lai effeithiol neu olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i reoli'r pla.

**Codir tâl ar gyfradd is am unrhyw driniaethau y tu hwnt i'r ddwy driniaeth gychwynnol. Efallai y bydd angen sawl ymweliad ychwanegol fel rhan o’r driniaeth gan y gall fod yn anodd iawn rheoli’r pla, yn enwedig os yw wedi hen sefydlu.**